Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Llun, 20 Ionawr 2020 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2020.

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Y Cynghorydd Sir (Arglwydd Faer) |
| | Cynghorwyr Sir Ahmed, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Hinchey, Hopkins, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Rees, Dianne Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood |

## 19 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Cunnah, Ford, Gavin Hill-John, Pippa Hill-John. Kelloway.

## 20 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiad buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

| CYNGHORYDD | EITEM | NATUR Y BUDDIANT |
|---|---|---|
| Henshaw | Hysbysiad o Gynnig | Buddiant personol, mae aelod o'r teulu yn fyfyriwr gwaith cymdeithasol. |

## 21 : HYSBYSIAD O GYNNIG

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod yr Hysbysiad o Gynnig a gyflwynwyd yn unol â Rheol 4 (b) Gweithdrefn Cyfarfodydd y Cyngor ar 8 Ionawr 2020, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Bowden, a eiliwyd gan y Cynghorydd Williams ac a gefnogwyd gan y Cynghorwyr McEvoy, Ford, Keith Parry, Gibson a Robson wedi'i gynnwys ar y wŷs ar gyfer y cyfarfod. Roedd un diwygiad wedi dod i law.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Fenella Bowden gan yr Arglwydd Faer i gynnig ei ddiwygiad fel a ganlyn:

Mae Cyngor Caerdydd yn awdurdod a arweinir gan aelodau ac felly, o bryd i'w gilydd, mae'n briodol i Aelodau'r Cyngor godi pryderon dilys mewn lleoliad cyhoeddus, sef yng nghyfarfod y Cyngor Llawn.

Mae Cynghorwyr Caerdydd yn Rhieni Corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor. Yn ddiweddar mae nifer o gynghorwyr o wahanol bleidiau gwleidyddol wedi codi pryderon ynglŷn â'r Gwasanaethau Plant. Mae'r pryderon hyn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i; atebolrwydd, craffu, tryloywder ac atebolrwydd.
Rydym yn cydnabod ac yn dymuno cofnodi'r gwaith sylweddol a'r ymrwymiad a wnaed gan y nifer fawr o staff a swyddogion yn y gwasanaethau plant a phopeth y maent yn ei wneud i ddiogelu ac amddiffyn plant yn ein dinas. Diben y cynnig hwn yw cadarnhau a sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith gennym yn briodol, yn gyfreithlon, yn gadarn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Felly, yn y lle cyntaf, cynigir cynnal adolygiad annibynnol o'r Gwasanaethau Plant, a'i fod yn ystyried y canlynol:

1. Adolygu cylch gorchwyl presennol a gweithrediad pwyllgor cynghori corfforaethol y Cyngor a gwneud argymhellion ar sut y gellir cryfhau rôl y pwyllgor.

2. Ystyried y trefniadau presennol ar gyfer sut a ble y mae cynghorwyr yn adrodd am bryderon ynghylch plant sy'n derbyn gofal ac a yw'r trefniadau hyn yn ddigon cadarn ac addas ac, os nad ydynt, sut y gellir eu gwella.

3. Ystyried y trefniadau presennol ar gyfer rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynghorwyr am bryderon ac ymholiadau ynghylch plant sy'n derbyn gofal a Gwasanaethau Plant y maent wedi'u codi, a gwneud argymhellion ar sut y gellir gwella'r trefniadau hyn i sicrhau bod cynghorwyr yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel rhieni corfforaethol.

4. Adolygu'r hyfforddiant sydd eisoes ar waith ar gyfer cynghorwyr a gwneud argymhellion o ran sut y gellir gwella'r trefniadau presennol.

5. Adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar hyn o bryd a gwneud argymhellion os credir y dylai'r polisïau a/neu'r gweithdrefnau hyn gael eu diwygio a'u hadolygu.

6. Cwrdd â'r cynghorwyr i ystyried unrhyw bryderon neu argymhellion sydd ganddynt ynghylch y polisïau a'r gweithdrefnau presennol yn y gwasanaethau plant, ac ystyried eu pryderon a/neu eu hargymhellion.

7. Ystyried y trefniadau craffu presennol ar gyfer y Gwasanaethau Plant a gwneud unrhyw argymhellion os credir y dylai'r rhain wella.

Dylai'r unigolyn/unigolion sy'n cynnal yr Adolygiad Annibynnol o'r Gwasanaethau Plant adrodd i'r Prif Weithredwr yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Dylid anfon copi heb ei olygu o'r adolygiad at bob cynghorydd a bydd y Prif Weithredwr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o weithredu argymhellion yr adolygiad annibynnol i'r Cyngor Llawn.

Eiliwyd y diwygiad gan y Cynghorydd Joel Williams a ddywedodd y byddai'n derbyn y diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gynigydd y diwygiad, y Cynghorydd Huw Thomas, i gyflwyno'r diwygiad.

***(Diwygiadau i'w gweld mewn llythrennau italig)***

Mae Cynghorwyr Caerdydd, *ynghyd â swyddogion y Cyngor ac asiantaethau partner,* yn Rhieni Corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal *y mae'r Cyngor â chyfrifoldebau rhieniol drostynt* ~~sy'n derbyn gofal gan y Cyngor.~~ ~~Yn ddiweddar mae nifer o gynghorwyr o wahanol bleidiau gwleidyddol wedi codi pryderon ynglŷn â'r Gwasanaethau Plant. Mae'r pryderon hyn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i; atebolrwydd, craffu, tryloywder ac atebolrwydd.~~

***Mae'r Aelodau hefyd yn cynrychioli eu hetholwyr sydd â chysylltiad personol â phrosesau diogelu ac a allai fod â phryderon penodol am y prosesau hynny. Mae'n hanfodol bod yr aelodau'n cael eu cefnogi i gyflawni'r rolau hynny'n effeithiol drwy hyfforddiant priodol, protocolau, cyngor proffesiynol ac adroddiadau ar berfformiad ynghylch ansawdd y canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Dylai'r rhain gefnogi dealltwriaeth glir o wahanol rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid aml-asiantaeth, y system llysoedd teulu a CAFCASS, sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant.***

Rydym yn cydnabod ac yn dymuno cofnodi'r gwaith sylweddol a'r ymrwymiad a wnaed gan y nifer fawr o staff a swyddogion yn y Gwasanaethau Plant**, adrannau eraill y Cyngor a gwasanaethau partner i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer ein Plant sy'n Derbyn Gofal** a'r cyfan y maent yn ei wneud i ddiogelu ac amddiffyn plant yn ein dinas. Diben y cynnig hwn yw cadarnhau a sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith gennym yn briodol, yn gyfreithlon, yn gadarn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ***ac yn cefnogi'r Aelodau i chwarae eu rôl yn y system hon.***

***Yn debyg i bob Awdurdod Lleol arall yn y DU, mae Caerdydd yn wynebu pwysau cynyddol o ran ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol. Nodwn, yn unol â thueddiadau cenedlaethol, fod nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi cynyddu'n sylweddol dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am ddefnyddio dull Tîm Caerdydd gyda chefnogaeth gref gan bob rhan o'r Cyngor a chydweithio effeithiol gyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus, annibynnol a thrydydd sector i fodloni anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal.***

***Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r camau amrywiol sydd wedi'u cymryd i weithredu strategaethau ac arferion newydd. Rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r gwaith o ddatblygu cynllun strategol 3 blynedd clir ar gyfer gwasanaethau plant Caerdydd. Mae'r cynllun hwn yn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwella'r gwaith o gynllunio a datblygu'r gweithlu, ymarfer a chomisiynu. Rydym hefyd yn croesawu ail-alinio adnoddau'n sylweddol er mwyn galluogi'r Cyngor i fodloni anghenion ein plant a'n pobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau atal ac amddiffyn.***

***Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r fframwaith cyfreithiol a rheoliadol y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu yn unol ag ef. Mae adroddiadau blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys dadansoddiad manwl o ansawdd a pherfformiad trefniadau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd. Ym mis Gorffennaf 2019, cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i'r Cyngor ynghyd â'r llythyr perfformiad blynyddol mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol Caerdydd a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru, y corff arolygu a rheoleiddio annibynnol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.***

***Rydym yn deall cyfrifoldebau personol yr Aelodau a phwysigrwydd mynychu hyfforddiant rhianta corfforaethol a diogelu, ac yn cydnabod cyfraniad a rolau hanfodol yr Aelodau drwy'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol a'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.***

***Felly mae'r Cyngor yn croesawu'r arbenigwr annibynnol a benodwyd yn ddiweddar gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd a'r Prif Weithredwr, i gynnal adolygiad o'r Protocol Diogelu Aelodau ac mae'n cynnig ymestyn cylch gwaith y cynghorydd annibynnol i gynnwys y canlynol:***

~~Felly, yn y lle cyntaf, cynigir cynnal adolygiad annibynnol o'r Gwasanaethau Plant, a'i fod yn ystyried y canlynol:~~

1. ~~Adolygu'r~~ ***gwaith o ddatblygu protocol ar rôl rhianta corfforaethol Cynghorwyr, sy'n cyd-fynd â'r Protocol Diogelu Aelodau. Bydd hyn yn cynnwys adolygu*** cylch gorchwyl presennol a gweithrediad pwyllgor cynghori *rhianta* corfforaethol y Cyngor a gwneud argymhellion ar sut y gellir cryfhau rôl y pwyllgor.

2. *Wrth adolygu'r Protocol Diogelu Aelodau,* ystyried y trefniadau presennol ar gyfer sut a ble y mae cynghorwyr yn adrodd am bryderon ynghylch plant sy'n derbyn gofal ac a yw'r trefniadau hyn yn ddigon cadarn ac addas ac, os nad ydynt, sut y gellir eu gwella.

3. *Wrth adolygu'r Protocol Diogelu Aelodau,* ystyried y trefniadau presennol ar gyfer rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynghorwyr am bryderon ac ymholiadau *y maent wedi'u codi* ynghylch plant sy'n derbyn gofal a Gwasanaethau Plant ~~y maent wedi'u codi~~, a gwneud argymhellion ar ~~sut y gellir gwella'r trefniadau hyn i sicrhau bod cynghorwyr yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel rhieni corfforaethol.~~ ***y trefniadau mwyaf effeithiol sy'n pwysleisio ar bob adeg bwysigrwydd y gwaith o ddiogelu ac amddiffyn plant, er mwyn sicrhau y gall Cynghorwyr gyflawni eu dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol***

4. Adolygu'r hyfforddiant sydd eisoes yn ei le ar gyfer cynghorwyr a gwneud argymhellion ar sut y gellir gwella'r trefniadau presennol**, *gan gynnwys ceisio cytundeb gan bob parti ar yr agweddau hynny y dylid eu hystyried yn hyfforddiant gorfodol ar gyfer Cynghorwyr, yn ogystal â therfynau proffesiynol a safonau ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a sut y dylid codi unrhyw bryderon trwy'r sianeli priodol.***

5. ~~Adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle ar hyn o bryd a gwneud argymhellion os credir y dylai'r polisïau a/neu'r gweithdrefnau hyn gael eu diwygio a'u hadolygu.~~ ***Gwneud argymhellion yn ôl yr angen ynghylch unrhyw newidiadau i brotocolau, polisïau a gweithdrefnau sydd ar waith.***

6. Cwrdd â'r cynghorwyr i ystyried unrhyw bryderon neu argymhellion sydd ganddynt ynghylch y polisïau a'r gweithdrefnau *rhianta corfforaethol* presennol ~~yn y gwasanaethau plant~~, ac ystyried eu pryderon a/neu eu hargymhellion.

7. Ystyried y trefniadau craffu presennol ar gyfer ~~y gwasanaethau plant~~ **rhianta corfforaethol** a gwneud unrhyw argymhellion os credir y dylai'r rhain wella.

~~Dylai'r unigolyn/unigolion sy'n cynnal yr adolygiad annibynnol o'r gwasanaethau plant adrodd i'r Prif Weithredwr yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Dylid anfon copi heb ei olygu o'r adolygiad at bob cynghorydd a bydd y Prif Weithredwr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o weithredu argymhellion yr adolygiad annibynnol i'r Cyngor Llawn.~~

***Dylai unrhyw argymhellion a gynigir gan yr arbenigwr annibynnol gael eu cyflwyno i gyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol. Byddai unrhyw argymhellion yn cael eu hystyried hefyd gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol, cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet cyntaf ac wedyn y cyngor llawn.***

***Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig sefydlu Fforwm Arweinwyr, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor, a fyddai'n cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, neu yn ôl yr angen, gyda swyddogion statudol i drafod materion cyfrinachol sy'n ymwneud yn benodol â phlant sy'n derbyn gofal.***

<u>Byddai'r cynnig yn darllen fel a ganlyn:</u>

Mae Cyngor Caerdydd yn awdurdod a arweinir gan aelodau ac felly, o bryd i'w gilydd, mae'n briodol i Aelodau'r Cyngor godi pryderon o bwys mewn lleoliad cyhoeddus, sef cyfarfod cyngor llawn.

Mae Cynghorwyr Caerdydd, ynghyd â swyddogion y Cyngor ac asiantaethau partner, yn Rhieni Corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal y mae'r Cyngor â chyfrifoldebau rhieniol drostynt.

Mae'r Aelodau hefyd yn cynrychioli eu hetholwyr sydd â chysylltiad personol â phrosesau diogelu ac a allai fod â phryderon penodol am y prosesau hynny. Mae'n hanfodol bod yr aelodau'n cael eu cefnogi i gyflawni'r rolau hynny'n effeithiol drwy hyfforddiant priodol, protocolau, cyngor proffesiynol ac adroddiadau ar berfformiad ynghylch ansawdd y canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Dylai'r rhain gefnogi dealltwriaeth glir o wahanol rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid aml-asiantaeth, y system llysoedd teulu a CAFCASS, sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant.

Rydym yn cydnabod ac yn dymuno cofnodi'r gwaith sylweddol a'r ymrwymiad a wnaed gan y nifer fawr o staff a swyddogion yn y gwasanaethau plant, adrannau eraill y Cyngor a gwasanaethau partner i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal a'r cyfan y maent yn ei wneud i ddiogelu ac amddiffyn plant yn ein dinas. Diben y cynnig hwn yw cadarnhau a sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith gennym yn briodol, yn gyfreithlon, yn gadarn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cefnogi'r Aelodau i chwarae eu rôl yn y system hon.

Yn debyg i bob Awdurdod Lleol arall yn y DU, mae Caerdydd yn wynebu pwysau sy'n cynyddu o ran ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol. Nodwn, yn unol â thueddiadau cenedlaethol, fod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu'n sylweddol dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am ymagwedd Tîm Caerdydd gyda chefnogaeth gref gan bob rhan o'r Cyngor a chydweithio effeithiol gyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus, annibynnol a thrydydd sector i fodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r camau amrywiol sydd wedi'u cymryd i weithredu strategaethau ac arferion newydd. Rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r gwaith o ddatblygu cynllun strategol 3 blynedd clir ar gyfer gwasanaethau plant Caerdydd. Mae'r cynllun hwn yn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwella'r gwaith o gynllunio a datblygu'r gweithlu, ymarfer a chomisiynu. Rydym hefyd yn croesawu ail-alinio adnoddau'n sylweddol er mwyn galluogi'r Cyngor i fodloni anghenion ein plant a'n pobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau atal ac amddiffyn.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r fframwaith cyfreithiol a rheoliadol y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu yn unol ag ef. Mae adroddiadau blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys dadansoddiad manwl o ansawdd a pherfformiad trefniadau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd. Ym mis Gorffennaf 2019, cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i'r Cyngor ynghyd â'r llythyr perfformiad blynyddol mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol Caerdydd a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru, y corff arolygu a rheoleiddio annibynnol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym yn deall cyfrifoldebau personol yr Aelodau a phwysigrwydd mynychu hyfforddiant rhianta corfforaethol a diogelu, ac yn cydnabod cyfraniad a rolau hanfodol yr Aelodau drwy'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol a'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

Felly mae'r Cyngor yn croesawu'r arbenigwr annibynnol a benodwyd yn ddiweddar gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd a'r Prif Weithredwr, i gynnal adolygiad o'r Protocol Diogelu Aelodau ac mae'n cynnig ymestyn cylch gwaith y cynghorydd annibynnol i gynnwys y canlynol:

1. Datblygu protocol ar rôl rhianta corfforaethol Cynghorwyr, sy'n cyd-fynd â'r Protocol Diogelu Aelodau. Bydd hyn yn cynnwys adolygu cylch gorchwyl presennol a gweithrediad pwyllgor cynghori rhianta corfforaethol y Cyngor a gwneud argymhellion ar sut y gellir cryfhau rôl y pwyllgor.

2. Wrth adolygu’r Protocol Diogelu Aelodau, ystyried y trefniadau presennol ar gyfer sut a ble y mae cynghorwyr yn adrodd am bryderon ynghylch plant sy'n derbyn gofal ac a yw'r trefniadau hyn yn ddigon cadarn ac addas ac, os nad ydynt, sut y gellir eu gwella.

3. Wrth adolygu’r Protocol Diogelu Aelodau, ystyried y trefniadau presennol ar gyfer rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynghorwyr am bryderon ac ymholiadau y maent wedi’u codi ynghylch plant sy'n derbyn gofal a Gwasanaethau Plant, y trefniadau mwyaf effeithiol sy’n pwysleisio ar bob adeg bwysigrwydd y gwaith o ddiogelu ac amddiffyn plant, er mwyn sicrhau y gall Cynghorwyr gyflawni eu dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol

4. Adolygu'r hyfforddiant sydd eisoes yn ei le ar gyfer cynghorwyr a gwneud argymhellion ar sut y gellir gwella'r trefniadau presennol, gan gynnwys ceisio cytundeb gan bob parti ar yr agweddau hynny y dylid eu hystyried yn hyfforddiant gorfodol ar gyfer Cynghorwyr, yn ogystal â therfynau proffesiynol a safonau ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a sut y dylid codi unrhyw bryderon trwy’r sianeli priodol.

5. Gwneud argymhellion yn ôl yr angen ynghylch unrhyw newidiadau i brotocolau, polisïau a gweithdrefnau sydd ar waith.

6. Cwrdd â'r cynghorwyr i ystyried unrhyw bryderon neu argymhellion sydd ganddynt ynghylch y polisïau a'r gweithdrefnau rhianta corfforaethol presennol ac ystyried eu pryderon a/neu eu hargymhellion.

7. Ystyried y trefniadau craffu presennol ar gyfer rhianta corfforaethol a gwneud unrhyw argymhellion os credir y dylai'r rhain wella.

Dylai unrhyw argymhellion a gynigir gan yr arbenigwr annibynnol gael eu cyflwyno i gyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol. Byddai unrhyw argymhellion yn cael eu hystyried hefyd gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol, cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet cyntaf ac wedyn y cyngor llawn.

Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig sefydlu Fforwm Arweinwyr, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor, a fyddai'n cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, neu yn ôl yr angen, gyda swyddogion statudol i drafod materion cyfrinachol sy'n ymwneud yn benodol â phlant sy'n derbyn gofal.

Ar ddiwedd y drafodaeth, gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Bowden i ymateb i eitemau a godwyd yn ystod y ddadl.  Cadarnhaodd y Cynghorydd Bowden ei bod yn derbyn y diwygiad.

Symudodd yr Arglwydd Faer i'r bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd

DERBYNIWYD y Cynnig o Sylwedd fel a ganlyn:

Mae Cyngor Caerdydd yn awdurdod a arweinir gan aelodau ac felly, o bryd i'w gilydd, mae'n briodol i Aelodau'r Cyngor godi pryderon o bwys mewn lleoliad cyhoeddus, sef cyfarfod cyngor llawn.

Mae Cynghorwyr Caerdydd, ynghyd â swyddogion y Cyngor ac asiantaethau partner, yn Rhieni Corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal y mae'r Cyngor â chyfrifoldebau rhieniol drostynt.

Mae'r Aelodau hefyd yn cynrychioli eu hetholwyr sydd â chysylltiad personol â phrosesau diogelu ac a allai fod â phryderon penodol am y prosesau hynny. Mae'n hanfodol bod yr aelodau'n cael eu cefnogi i gyflawni'r rolau hynny'n effeithiol drwy hyfforddiant priodol, protocolau, cyngor proffesiynol ac adroddiadau ar berfformiad ynghylch ansawdd y canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Dylai'r rhain gefnogi dealltwriaeth glir o wahanol rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid aml-asiantaeth, y system llysoedd teulu a CAFCASS, sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant.

Rydym yn cydnabod ac yn dymuno cofnodi'r gwaith sylweddol a'r ymrwymiad a wnaed gan y nifer fawr o staff a swyddogion yn y gwasanaethau plant, adrannau eraill y Cyngor a gwasanaethau partner i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal a'r cyfan y maent yn ei wneud i ddiogelu ac amddiffyn plant yn ein dinas. Diben y cynnig hwn yw cadarnhau a sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith gennym yn briodol, yn gyfreithlon, yn gadarn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cefnogi'r Aelodau i chwarae eu rôl yn y system hon.

Yn debyg i bob Awdurdod Lleol arall yn y DU, mae Caerdydd yn wynebu pwysau sy'n cynyddu o ran ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol.  Nodwn, yn unol â thueddiadau cenedlaethol, fod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu'n sylweddol dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am ymagwedd Tîm Caerdydd gyda chefnogaeth gref gan bob rhan o'r Cyngor a chydweithio effeithiol gyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus, annibynnol a thrydydd sector i fodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r camau amrywiol sydd wedi'u cymryd i weithredu strategaethau ac arferion newydd. Rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r gwaith o ddatblygu cynllun strategol 3 blynedd clir ar gyfer gwasanaethau plant Caerdydd. Mae'r cynllun hwn yn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwella'r gwaith o gynllunio a datblygu'r gweithlu, ymarfer a chomisiynu. Rydym hefyd yn croesawu ailalinio adnoddau'n sylweddol er mwyn galluogi'r Cyngor i fodloni anghenion ein plant a'n pobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau atal ac amddiffyn.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r fframwaith cyfreithiol a rheoliadol y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu yn unol ag ef.  Mae adroddiadau blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys dadansoddiad manwl o ansawdd a pherfformiad trefniadau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd. Ym mis Gorffennaf 2019, cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i'r Cyngor ynghyd â'r llythyr perfformiad blynyddol mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol Caerdydd a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru, y corff arolygu a rheoleiddio annibynnol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym yn deall cyfrifoldebau personol yr Aelodau a phwysigrwydd mynychu hyfforddiant rhianta corfforaethol a diogelu, ac yn cydnabod cyfraniad a rolau hanfodol yr Aelodau drwy'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol a'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

Felly mae'r Cyngor yn croesawu’r arbenigwr annibynnol a benodwyd yn ddiweddar gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd a'r Prif Weithredwr, i gynnal adolygiad o'r Protocol Diogelu Aelodau ac mae'n cynnig ymestyn cylch gwaith y cynghorydd annibynnol i gynnwys y canlynol:

8. Datblygu protocol ar rôl rhianta corfforaethol Cynghorwyr, sy’n cyd-fynd â’r Protocol Diogelu Aelodau. Bydd hyn yn cynnwys adolygu cylch gorchwyl presennol a gweithrediad pwyllgor cynghori rhianta corfforaethol y Cyngor a gwneud argymhellion ar sut y gellir cryfhau rôl y pwyllgor.

9. Wrth adolygu’r Protocol Diogelu Aelodau, ystyried y trefniadau presennol ar gyfer sut a ble y mae cynghorwyr yn adrodd am bryderon ynghylch plant sy'n derbyn gofal ac a yw'r trefniadau hyn yn ddigon cadarn ac addas ac, os nad ydynt, sut y gellir eu gwella.

10. Wrth adolygu’r Protocol Diogelu Aelodau, ystyried y trefniadau presennol ar gyfer rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynghorwyr am bryderon ac ymholiadau y maent wedi’u codi ynghylch plant sy'n derbyn gofal a Gwasanaethau Plant, y trefniadau mwyaf effeithiol sy’n pwysleisio ar bob adeg bwysigrwydd y gwaith o ddiogelu ac amddiffyn plant, er mwyn sicrhau y gall Cynghorwyr gyflawni eu dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol

11. Adolygu'r hyfforddiant sydd eisoes yn ei le ar gyfer cynghorwyr a gwneud argymhellion ar sut y gellir gwella'r trefniadau presennol, gan gynnwys ceisio cytundeb gan bob parti ar yr agweddau hynny y dylid eu hystyried yn hyfforddiant gorfodol ar gyfer Cynghorwyr, yn ogystal â therfynau proffesiynol a safonau ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a sut y dylid codi unrhyw bryderon trwy’r sianeli priodol.

12. Gwneud argymhellion yn ôl yr angen ynghylch unrhyw newidiadau i brotocolau, polisïau a gweithdrefnau sydd ar waith.

13. Cwrdd â'r cynghorwyr i ystyried unrhyw bryderon neu argymhellion sydd ganddynt ynghylch y polisïau a'r gweithdrefnau rhianta corfforaethol presennol ac ystyried eu pryderon a/neu eu hargymhellion.

14. Ystyried y trefniadau craffu presennol ar gyfer rhianta corfforaethol a gwneud unrhyw argymhellion os credir y dylai'r rhain wella.

Dylai unrhyw argymhellion a gynigir gan yr arbenigwr annibynnol gael eu cyflwyno i gyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol. Byddai unrhyw argymhellion yn cael eu hystyried hefyd gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol, cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet cyntaf ac wedyn y cyngor llawn.

Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig sefydlu Fforwm Arweinwyr, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor, a fyddai'n cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, neu yn ôl yr angen, gyda swyddogion statudol i drafod materion cyfrinachol sy'n ymwneud yn benodol â phlant sy'n derbyn gofal.